CPS

Cefnogi dioddefwyr a thystion ag anabledd dysgu

Gorffennaf 2009

Cynnwys

Rhagymadrodd	tudalen 2
Gwasanaeth Erlyn y Goron	tudalen 5
Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron	tudalen 8
Y gallu i roi tystiolaeth	tudalen 12
Trosedd casineb tuag at bobl anabl	tudalen 23
Hawliau dioddefwyr a thystion i gael gwasanaeth da a theg	tudalen 27
Cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion	tudalen 33
Dedfrydu	tudalen 42
Atodiad A: Geirfa - egluro geiriau	tudalen 48
Atodiad B: Rhestr gyfeirio	tudalen 57
Atodiad C: Cynnydd achos troseddol	tudalen 58
Atodiad D: Sefydliadau cefnogi	tudalen 60

Rhagymadrodd

Mae'r adran hon yn sôn am y ddogfen hon, ei phwrpas a dogfen ar gyfer pwy yw hi

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn 'ddatganiad polisi cyhoeddus'. Mae'n egluro sut bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron ('CPS') yn delio ag achosion sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion sydd ag anabledd dysgu. Y mae datganiad polisi cyhoeddus ar wahân ar gyfer dioddefwyr a thystion â gofynion iechyd meddwl wedi'i gyhoeddi yn yr adran Cyhoeddiadau ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk. Rydym yn cydnabod y bydd gan rai pobl anabledd dysgu yn ogystal â gofynion iechyd meddwl; dan yr amgylchiadau hynny gall y ddau bolisi fod yn gymwys.

Pwrpas y ddogfen hon

Pwrpas y ddogfen hon yw:

- egluro rôl y CPS;
- rhoi golwg gyffredinol ar y system cyfiawnder troseddol;
- disgrifio'r hyn y gall dioddefwyr a thystion ei ddisgwyl gan y CPS; a
- rhoi gwybodaeth am faterion penodol a all effeithio ar ddioddefwyr a thystion sydd ag anabledd dysgu.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pawb, ond yn benodol ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu ac sy'n **ddioddefwr**, neu'n **dyst** i drosedd.

Pam rydym ni wedi cyhoeddi'r datganiad polisi cyhoeddus hwn?

Gall pobl ag anableddau dysgu brofi:

- troseddau penodol;
- cyfraddau troseddu uwch na'r cyfartaledd; a
- rhwystrau penodol rhag cyfiawnder.

Ni ellir cael erlyniadau llwyddiannus oni bai fod dioddefwyr a thystion yn teimlo'n hyderus ac yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd os bydd y rhai sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol yn deall gofynion penodol pobl ag anabledd dysgu.

Rydym eisiau i ddioddefwyr a thystion i droseddau fod yn glir ynghylch eu hawliau. Rydym eisiau iddynt fod yn glir ynghylch cyfrifoldebau'r CPS a chyfrifoldebau asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Rydym eisiau i ddioddefwyr a thystion wybod pa gefnogaeth sydd ar gael iddynt a'r hyn y gallwn ei wneud i'w helpu i roi eu tystiolaeth yn y ffordd orau iddyn nhw.

Mae'r datganiad polisi cyhoeddus hwn yn ceisio rhoi gwybodaeth a sicrwydd i ddioddefwyr a thystion ag anableddau dysgu bod y CPS yn cymryd eu hanghenion o ddifrif.

Cwestiynau Cyffredin

C. Pam nad yw'r ddogfen hon yn sôn hefyd am bobl sydd ag anabledd dysgu ac sydd o bosib wedi cyflawni troseddau?

A. Mae gan ddioddefwyr a thystion hawliau ac anghenion cefnogaeth gwahanol i bobl sydd dan amheuaeth o gyflawni troseddau. Pwrpas y ddogfen hon yw sicrhau bod yr hawliau a'r anghenion penodol hyn yn glir i ddioddefwyr a thystion.

C. A fydd erlynwyr yn cael gwybodaeth fanylach i gefnogi'r ddogfen hon?

A. Byddant. Fe gafodd Canllawiau Cyfreithiol eu paratoi ar gyfer erlynwyr. Mae'r Canllawiau Cyfreithiol yn mynd i fwy o fanylder am y gyfraith berthnasol, ymarferiad a threfniadaeth ac maent ar gael ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk

C. Mae yna eiriau ac ymadroddion eithaf anodd o fewn y ddogfen hon. Sut gallaf eu deall?

A. Mae yna restr o eiriau ac ymadroddion ar ddiwedd y ddogfen hon - Atodiad A.

C. Pa ffurfiau gwahanol o'r ddogfen hon sydd ar gael?

A. Bydd fersiwn hawdd ei ddarllen o'r ddogfen hon ar gael yn yr adran Cyhoeddiadau ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk

Gallwch ofyn am gopïau wedi'u hargraffu, yn ogystal â gwybodaeth am ffurfiau eraill a chyfieithiadau sydd ar gael, trwy gysylltu â Changen Cyfathrebu y CPS, ffôn 020 335 70913 neu e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am waith Gwasanaeth Erlyn y Goron – neu'r CPS

Y CPS yw'r prif awdurdod erlyn dros Gymru a Lloegr. Mewn geiriau eraill, y CPS sy'n penderfynu a ddylai rhywun sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd fynd i'r llys.

Pennaeth y CPS yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae'n sefydliad cenedlaethol sydd wedi'i rannu'n 42 Rhanbarth. Mae yna wasanaeth cyngor am gyhuddo dros y ffôn y tu allan i oriau swyddfa ar gael i'r heddlu o'r enw 'CPS Direct'. Mae Prif Erlynydd y Goron yn gyfrifol am bob Rhanbarth.

Mae'r CPS yn sefydliad sydd ar wahân i'r heddlu. Bydd yr heddlu a'r CPS yn gweithio'n agos â'i gilydd ond mae ganddynt swyddogaethau gwahanol.

Bydd yr heddlu yn ymchwilio i'r holl amgylchiadau pan fydd pobl yn cael profiad o drosedd neu'n gweld trosedd yn digwydd. Byddant yn casglu'r holl ffeithiau neu'r 'dystiolaeth'.

Ar ôl i'r heddlu gasglu'r dystiolaeth, yna bydd cyfreithyddion – a elwir yn 'Erlynwyr y Goron' – sy'n gweithio i'r CPS yn gorfod penderfynu a ddylai'r achos fynd yn ei flaen trwy ddefnyddio'r 'Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron'.

Fe gewch ragor o fanylion am y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron yn yr adran Cyhoeddiadau ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk. Gallwch ofyn am gopïau wedi'u hargraffu, yn ogystal â gwybodaeth am ffurfiau eraill a chyfieithiadau sydd ar gael, trwy gysylltu â Changen Cyfathrebu y CPS, ffôn 020 335 70913 neu e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Yn yr adran isod mae rhagor o wybodaeth am sut bydd yr heddlu a'r CPS yn gweithio gyda'i gilydd i ddod ag achosion gerbron llys.

Mae'r adran hon yn egluro sut mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio gyda'r heddlu

Yr heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau. Mae hyn yn golygu eu bod yn casglu tystiolaeth, cymryd datganiadau gan dystion a holi pobl sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd. Ni fydd yr heddlu yn mynd i'r llys i erlyn achosion; gwaith

cyfreithyddion a staff eraill â chymwysterau cyfreithiol yw hynny, sy'n cael eu cyflogi neu eu 'cyfarwyddo' gan y CPS.

Y CPS sy'n gyfrifol am benderfynu (ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf) a ddylai person gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd ac, os dylai, beth ddylai'r cyhuddiadau fod. Gelwir hyn yn benderfyniad cyhuddo.

Ni fydd yr heddlu yn cyfeirio pob cwyn am ymddygiad troseddol at y CPS. Weithiau, mae'n amlwg nad oes digon o dystiolaeth i gyfiawnhau cyfeirio'r achos at y CPS am benderfyniad erlyn. Mewn achosion eraill, ble bydd digon o dystiolaeth, efallai y bydd hi'n bosib i'r heddlu ddelio â'r achos heb i'r achos orfod mynd i'r llys na bod angen ei gyfeirio at y CPS. Yn yr achosion hynny, ni fydd neb yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd. Penderfyniad i'r heddlu yw hyn.

Ar gyfer rhai mân droseddau, mae hawl gan yr heddlu i wneud y penderfyniad erlyn heb gyfeirio'r achos at y CPS ar y dechrau. Ond, unwaith y bydd yr achos yn cael ei roi i'r CPS, rhaid i ni benderfynu a ddylid parhau â'r achos ai peidio. Byddwn yn gwneud hyn yn unol â'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron (a ddisgrifir isod).

Ym mhob achos, bydd yr heddlu yn dweud wrth y sawl sydd dan amheuaeth am y cyhuddiad neu'r cyhuddiadau y bydd yn ei wynebu.

Bydd y CPS yn cyflogi cyfreithyddion ac aelodau staff eraill â chymwysterau cyfreithiol i baratoi ac erlyn achosion, a staff gweinyddol i helpu i baratoi achosion a rhedeg y sefydliad yn

esmwyth. Ni fydd Erlynwyr y Goron yn ymchwilio i droseddau; rôl yr heddlu yw hynny. Fodd bynnag, bydd Erlynwyr y Goron yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, gan roi cyngor cyfreithiol a chymorth

Fel arfer ni fydd aelod o'r CPS mewn cysylltiad â dioddefwr neu dyst hyd nes y bydd rhywun wedi'i gyhuddo o gyflawni trosedd. Bydd yr heddlu yn rhoi gwybodaeth i'r CPS am y dioddefwr neu'r tyst. Bydd hyn yn digwydd trwy siarad â'r dioddefwr neu'r tyst pan fyddan nhw'n adrodd hanes yr hyn a ddigwyddodd (rhoi eu 'datganiad tyst').

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod am unrhyw ofynion neu anghenion penodol posib sydd gan ddioddefwr neu dyst, i'w galluogi i ddod i'r llys i roi eu tystiolaeth orau. Mae'n ddefnyddiol os bydd hyn yn cael ei egluro wrth yr heddlu ar gam cynnar gan y dioddefwr neu dyst, fel bod yr heddlu yn gallu trafod y gofynion hyn gyda'r CPS.

Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth fanylach am y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron a phenderfyniadau erlyn

Byddwn yn penderfynu pa achosion i'w herlyn trwy ddefnyddio'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron – 'y Côd'. Mae dau gam yn y Côd. Rhaid bodloni'r ddau gam cyn y gellir erlyn achos.

- Yn gyntaf, rhaid bod **tystiolaeth** ddigonol i roi gobaith realistig o euogfarn cyn y gall achos fynd i'r llys. Mae hyn yn

golygu, cyn i ni gynghori'r heddlu i gyhuddo rhywun sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd, rhaid bod digon o dystiolaeth fel y bydd ynadon neu reithgor yn fwy tebygol na pheidio o gael y person yn euog o'r hyn y cyhuddwyd nhw o'i gyflawni.

- Yn ail, rhaid i erlyn fod **er budd y cyhoedd**. Rhaid i ni bwyso a mesur y ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus a theg. Nid yw'r CPS yn gweithredu dros ddioddefwyr na theuluoedd dioddefwyr yn yr un ffordd ag y bydd cyfreithwyr yn gweithredu dros eu cleientiaid. Y prif wahaniaeth yw fod y CPS yn gweithredu ar ran y cyhoedd. Rhaid i ni feddwl am ba mor bwysig yw'r achos i gymdeithas yn gyffredinol – nid i'r bobl sydd ynghlwm â'r achos yn unig.

Cyhuddo'r sawl sydd dan amheuaeth

Os oes digon o dystiolaeth a'i bod er budd y cyhoedd i achos fynd i'r llys, byddwn yn penderfynu gyda pha droseddau y dylid cyhuddo'r sawl sydd dan amheuaeth. Efallai y bydd mwy nag un cyhuddiad.

Byddwn yn sicrhau bod y troseddau a gyhuddir yn cynrychioli difrifoldeb y troseddu a rhoi grym digonol i'r llys ddedfrydu rhywun a geir yn euog.

Unwaith y penderfynwyd erlyn y sawl sydd dan amheuaeth, bydd yr heddlu yn ei gyhuddo ef neu hi o gyflawni'r troseddau a bydd raid iddo ef neu hi fynd i'r llys i ateb y cyhuddiadau. Dyma pryd y bydd yr erlyn yn dechrau a'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei alw'n ddiffynnydd.

Newidiadau ar ôl i'r erlyniad ddechrau

Weithiau bydd amgylchiadau achos yn newid ar ôl i'r erlyniad ddechrau a'r achos wedi mynd i'r llys. Rhaid i ni wneud penderfyniadau drwy'r adeg yn ystod achosion. Gall hyn olygu, hyd yn oed ar ôl i erlyniad ddechrau, y bydd raid i ni newid neu ollwng cyhuddiadau. Os byddwn yn gwneud newidiadau sylweddol neu'n gollwng cyhuddiadau, byddwn yn dweud wrth y dioddefwr am yr hyn a wnaethom a pham. Rydym yn galw hyn yn 'Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr'.

Fe gewch ragor o wybodaeth am Gyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr yn yr adran Adnoddau Cyfreithiol, dan Canllawiau Cyfreithiol ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk

Y cyfreithydd sy'n gwneud y penderfyniad sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r dioddefwr. Fel arfer bydd hyn yn digwydd trwy lythyr er mwyn i'r dioddefwr gael cofnod ysgrifenedig o'n penderfyniad a'r rheswm trosto. Bydd y llythyr yn cael ei anfon ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

Mewn rhai achosion, er enghraifft pan fydd yn ymddangos bod y trosedd yn fwy difrifol neu'n waeth oherwydd gelyniaeth ar sail anabledd, rhaid i'r cyfreithydd gynnig cwrdd â'r dioddefwr yn bersonol er mwyn egluro'r penderfyniad. Yn ein canllawiau ar Gyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr mae'n egluro'n fanylach y mathau o achosion ble gofynnir i ddioddefwyr a ydynt eisiau cwrdd â'r cyfreithydd yn bersonol er mwyn cael esbonio'r penderfyniad i newid cyhuddiad neu ei ollwng.

Ble mae cael rhagor o wybodaeth am Wasanaeth Erlyn y Goron?

- Gwefan y CPS - www.cps.gov.uk
- Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron – 'Y Côd'
- Cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr

Fe gewch ragor o fanylion ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk. Gallwch ofyn am gopïau wedi'u hargraffu, yn ogystal â gwybodaeth am ffurfiau eraill a chyfieithiadau sydd ar gael, trwy gysylltu â Changen Cyfathrebu y CPS, ffôn 020 335 70913 neu e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Cwestiynau Cyffredin

C. Pam fyddai'r CPS yn gollwng cyhuddiad?

A. Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau, er enghraifft tystiolaeth newydd yn dod ar gael, neu amheuaeth ynghylch tystiolaeth oedd yn cael ei hystyried yn ddibynadwy yn flaenorol. Bydd pob achos yn cael ei ystyried gan ddefnyddio'r profion a ddisgrifir yn y Côd.

C. A gaf fi gwyno os bydd y CPS yn gollwng cyhuddiad?

A. Gallwch gwyno wrth Ranbarth y CPS a wnaeth y penderfyniad. Bydd erlynydd y CPS a benderfynodd ollwng y cyhuddiad yn ysgrifennu at y dioddefwr mewn achosion ble bydd cyhuddiad yn cael ei ollwng gan egluro'r rheswm dros y penderfyniad, ac mewn rhai achosion bydd yn cynnig cwrdd â'r dioddefwr.

C. A gaf fi fynd â rhywun gyda mi i gyfarfod gyda'r erlynydd?

A. Cewch, fe gewch chi fynd â rhywun gyda chi, er enghraifft aelod o'r teulu neu ffrind neu gefnogwr arall. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ofynion arbennig sydd gennych er mwyn hwyluso'r cyfarfod, er enghraifft cymorth gyda chyfathrebu.

Y gallu i roi tystiolaeth

Mae'r adran hon yn delio â rhai o'r pryderon sydd gan ddioddefwyr a thystion ag anabledd dysgu ynghylch mynediad at gyfiawnder

Yma, rydym yn egluro ystyr rhai o'r termau cyfreithiol a'r pethau y gallai erlynwyr orfod eu hystyried wrth wneud penderfyniad mewn achos ble mae anabledd dysgu gan ddioddefwyr neu dyst.

Dylai dioddefwyr a thystion sydd ag anabledd dysgu gael yr un mynediad at gyfiawnder ag unrhyw ddioddefwr neu dyst. Rydym eisiau i'n herlynwyr wneud eu penderfyniadau yn rhydd rhag rhagdybiaethau na stereoteipiau, a chyda gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n berthnasol i achosion yn ymwneud â dioddefwyr neu dystion ag anabledd dysgu.

Bod yn gymwys

Mae'r gyfraith yn dweud bod **pawb** yn gymwys i roi tystiolaeth. Ystyr cymwys yn y cyd-destun hwn yw 'gallu rhoi tystiolaeth yn gyfreithlon'. Dyma'r man cychwyn ar gyfer asesu pob tyst wrth i erlynwyr ystyried eu tystiolaeth.

Nid yw tyst yn gymwys i roi tystiolaeth os nad yw'n gallu deall cwestiynau fydd yn cael eu gofyn iddo ef neu hi fel tyst, a rhoi atebion i'r cwestiynau hynny y gellir eu deall.

Dylai pobl ag anabledd dysgu gael yr un cyfle ag unrhyw un arall i allu rhoi tystiolaeth. Dylai erlynwyr gwestiynu cymhwysedd tyst ag anabledd dysgu dan yr un amgylchiadau ag y byddent ar gyfer unrhyw dyst arall yn unig. Rhaid i erlynwyr beidio â gwneud rhagdybiaethau negyddol am gymhwysedd tyst sydd ag anabledd dysgu.

Galluedd

Mae'r gyfraith yn datgan bod yn rhaid tybio bod unigolyn yn meddu ar alluedd meddyliol oni bai y gellir dangos bod ganddo ef neu hi ddiffyg galluedd meddyliol.

Beth mae 'galluedd meddyliol' yn ei olygu? Yn syml, mae gan berson alluedd meddyliol os yw'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun. Bydd person yn methu gwneud penderfyniad neilltuol os bydd yn methu gwneud un neu ragor o'r pedwar peth canlynol:

- deall gwybodaeth a roddir iddyn nhw;

- cofio'r wybodaeth yn ddigon hir i allu gwneud y penderfyniad;
- gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth;
- cyfleu/dweud wrth rywun am eu penderfyniad.

Mae pob math o benderfyniadau yn cael eu cwmpasu gan y disgrifiad hwn. Mae'n cynnwys penderfyniadau am achosion troseddol. Os oes gennych anabledd dysgu, efallai fod gennych alluedd i wneud penderfyniad neilltuol un diwrnod ond nid y diwrnod wedyn. Efallai y bydd angen oedi cyn gwneud penderfyniad hyd nes y byddwch yn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw.

Mae yna rai rheolau neu egwyddorion y mae'n rhaid eu dilyn gan unrhyw un sy'n cefnogi neu'n gweithio gyda pherson sydd efallai heb alluedd.

Y man cychwyn yw fod pob oedolyn yn gallu gwneud penderfyniad yn gyfreithlon trosto'i hun oni bai y dangosir nad yw'n gallu gwneud hynny. Mae hyn yn golygu na ddylai pobl dybio na all rhywun ag anabledd dysgu wneud penderfyniadau trosto'i hun.

Yn ail, dylai pobl gael eu cefnogi gymaint â phosib i wneud eu penderfyniadau eu hunain cyn i unrhyw un ddod i'r casgliad na allant wneud eu penderfyniadau eu hunain. Gall y gefnogaeth hon fod trwy ddefnyddio gwahanol ffyrdd o gyfathrebu, er enghraifft lluniau neu arwyddion, a darparu gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau, fel tâp neu ffurf hawdd ei darllen. Mewn rhai

achosion, efallai y bydd adfocad annibynnol sy'n gyfarwydd â chefnogi pobl ag anableddau dysgu yn gallu helpu.

Dylai erlynwyr fod yn ymwybodol, er ei bod hi'n bosib na fydd tyst ag anabledd dysgu yn meddu ar alluedd ar adeg neilltuol, ond gyda'r gefnogaeth gywir, y gellir sicrhau galluedd.

Hygrededd a dibynadwyedd

Pan fydd erlynwyr yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth er mwyn bwrw ymlaen ag achos, rhaid iddynt ystyried a yw'r dystiolaeth sydd ganddynt yn ddibynadwy a chredadwy. Mae hyn yn rhan o'r Côd.

Credadwy – a fydd pobl yn credu'r hyn a ddywedwch?

Dibynadwy – a fyddwch yn rhoi tystiolaeth dda yn y llys ac yn dweud yr un peth drwy gydol yr achos?

Mae llawer o bobl ag anableddau dysgu yn pryderu na fydd yr heddlu ac erlynwyr yn meddwl eu bod yn gallu rhoi tystiolaeth y gellir ei chredu na'i deall yn y llys.

O ran erlynwyr, y man cychwyn yw fod y tyst yn gredadwy ac yn gallu rhoi tystiolaeth ddibynadwy. Ni ddylid byth rhagdybio nad yw rhywun yn gredadwy nac yn gallu rhoi tystiolaeth ddibynadwy oherwydd bod ganddynt anabledd dysgu.

Dylai hygrededd neu ddibynadwyedd gael eu cwestiynu dan yr un amgylchiadau ag ar gyfer unrhyw dyst arall yn unig; hynny

yw, pan godir rhywbeth penodol sy'n cwestiynu hygrededdneu ddibynadwyedd y tyst. Rydym yn rhoi enghreifftiau o'r hyn a olygwn wrth ddibynadwyedd a hygrededdisod.

Mae'r ffordd y bydd dioddefwr/tyst yn cael eu trin yn gallu dylanwadu ar ddibynadwyedd a hygrededdd. Os bydd pobl ag anableddau dysgu yn cael eu cymryd o ddifrif a phobl yn gwrando arnynt, gallant deimlo'n fwy hyderus a llai pryderus, ac felly'n gallu rhoi eu tystiolaeth orau yn y llys.

Weithiau, yr unig gwestiwn ynghylch dibynadwyedd yw a fydd y tyst yn gallu rhoi ei dystiolaeth mewn ffordd y gall yr ynadon neu'r rheithgor ei deall. Pan fydd hyn yn digwydd, dylai erlynwyr a'r heddlu ystyried a fyddai canolwr yn gallu helpu tyst i roi tystiolaeth.

Os oes gan yr erlynydd reswm da dros bryderu ynghylch hygrededdneu ddibynadwyedd tyst, er enghraifft, oherwydd bod ei stori wedi newid, dylai'r erlynydd geisio cael gwybodaeth gadarn am y tyst er mwyn gallu asesu ei hygrededdneu ddibynadwyedd, fel na fydd dioddefwyr yn methu cael treial yn awtomatig oherwydd bod ganddynt anabledd dysgu. Gall hyn gynnwys tystiolaeth am y math o anabledd dysgu sydd gan unigolion, ac a yw hyn yn effeithio ar eu cof, eu dealltwriaeth o ddigwyddiadau a'u gallu i gyfathrebu a rhyngweithio â phobl eraill.

Rôl swyddog yr heddlu yw ceisio cael gwybodaeth gan y tyst a, gyda chaniatâd y tyst, gan ffrindiau a theulu a gweithwyr meddygol proffesiynol. Gall y wybodaeth hon fod yn hynod sensitif felly bydd erlynwyr yn cynghori'r heddlu i sicrhau eu bod yn gofyn am gydsyniad gwybodus, gan gadw at reolau diogelu

data a gofyn am wybodaeth sy'n angenrheidiol yn unig i gefnogi'r dasg o wneud penderfyniadau da.

Mewn rhai achosion gall 'cyfweliad gyda thystion cyn treial' gyda'r erlynydd a'r tyst helpu'r erlynydd i ddod i benderfyniad ynghylch dibynadwyedd tyst. Gall hyn fod yn ddefnyddiol dros ben oherwydd fe all yr erlynydd gwrdd â thystion a gofyn cwestiynau am eu tystiolaeth er mwyn gwneud y penderfyniadau cywir ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn yr achos.

Fe gewch ragor o fanylion am gyfweliadau gyda thystion cyn treial yn yr adran Cefnogaeth i dioddefwyr a thystion yn y ddogfen hon.

Gall yr enghreifftiau isod helpu i egluro ystyr hygrededd a dibynadwyedd:

Enghraifft 1 – Mae tyst yn dweud iddo weld rhywbeth yn digwydd am chwech o'r gloch. Mae'n dweud ei fod yn gwybod mai chwech o'r gloch oedd hi oherwydd iddo edrych ar ei wats. Mae ymholiadau pellach yn datgelu bod wats y tyst wedi torri ar y pryd.

Mae'r tyst yn **gredadwy** – does dim rheswm dros gredu nad yw'n dweud y gwir a'i fod yn credu iddo ddigwydd am chwech o'r gloch. Fodd bynnag, ni ellir dibynnu ar ei dystiolaeth oherwydd bod y wats wedi torri.

Enghraifft 2 – Mae dyn yn dweud wrth yr heddlu bod ei gar wedi'i ddwyn o'r tu allan i'w dŷ a bod y lleidr wedi malu'r car mewn damwain. Mae'r dyn wedi'i ddiarddel rhag gyrru.

Mae'r heddlu yn mynd i safle'r gwrthdrawiad a dod o hyd i'r car a ddifrodwyd. Yn ôl perchennog y car, roedd gyda ffrind pan ddigwyddodd y gwrthdrawiad.

Mae'r heddlu yn siarad â'r ffrind sy'n cadarnhau bod perchennog y car gydag ef adeg y gwrthdrawiad. Mae'r heddlu y gwneud rhagor o ymholiadau a darganfod bod y ffrind wedi'i euogfarnu o ddweud celwyddau wrth yr heddlu dan amgylchiadau tebyg. **Efallai fod** y ffrind **yn ddibynadwy** ond **nid yw'n gredadwy** – hynny yw, ni ellir ei gredu – oherwydd iddo ddweud celwyddau dan amgylchiadau tebyg o'r blaen.

Enghraifft 3 – Mae tyst sydd ag anabledd dysgu yn gweld rhywun yn dwyn beic y tu allan i siop. Mae'r tyst yn cael trafferth cofio dyddiadau ac amseroedd, ac weithiau bydd hi'n mynd yn ddryslyd wrth siarad â phobl nad yw'n eu hadnabod yn dda, neu sydd mewn sefyllfa o awdurdod, fel swyddogion yr heddlu. Mae'r tyst yn dweud amseroedd a dyddiadau gwahanol wrth swyddogion yr heddlu pan fyddan nhw'n gofyn iddi am yr hyn a welodd. Mae hi'n mynd yn ddryslyd pan fyddan nhw'n holi o ba siop y cafodd y beic ei ddwyn.

…parhau ar y dudalen nesaf

Enghraifft 3 – parhad…

Mae gan y tyst berthynas dda â grŵp hunaneiriolaeth a fu'n gweithio gyda hi'n rheolaidd. Mae'r gweithiwr cefnogi yn rhoi hyder iddi wrth siarad ag eraill a'i helpu i roi trefn ar ei meddyliau pan ofynnir iddi egluro pethau wrth bobl eraill. Heb eu cymorth, gall ymddangos ei bod yn ffwndrus a dryslyd. Gyda'u cefnogaeth, gall roi trefn ar y ffeithiau ac egluro pethau'n well. I rywun o'r tu allan, gall **ymddangos** bod y tyst yn **annibynadwy** oherwydd na all egluro'n glir, neu'n ddryslyd pan fydd dan bwysau. Gyda chymorth cefnogwr, efallai y bydd hi'n gallu ymdopi'n well ac adrodd am yr hyn a ddigwyddodd mewn ffordd **ddibynadwy**.

Cefnogi tystion fel eu bod yn gallu gwrthsefyll proses y llys

Wrth ystyried a yw hi er budd y cyhoedd i erlyniad barhau, rhaid i erlynwyr ystyried a yw 'erlyniad yn debygol o gael effaith ddrwg ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefwr'. Mae hyn yn rhan o'r Côd.

Ni ddylai erlynwyr wneud rhagdybiaethau am yr effaith y bydd erlyniad yn ei gael ar ddioddefwr neu dyst. Os oes gan yr erlynydd bryderon dilys na fydd y tyst yn abl i roi tystiolaeth, **ble bynnag y bo modd** dylid gofyn i'r tyst am ei farn ef neu hi.

Fel arfer bydd pobl ag anabledd dysgu yn arbenigwyr ar eu cryfderau eu hunain a'u hanghenion o ran cefnogaeth. Os bydd gofyn iddynt fynychu llys fel tystion, y nhw fel arfer sydd yn y

sefyllfa orau i benderfynu a fyddant yn gallu ymdopi â rhoi tystiolaeth yn y llys.

Bydd pobl ag anabledd dysgu yn gwybod a fydd cael cefnogaeth yn eu helpu os gofynnir iddynt roi tystiolaeth yn y llys. Os byddant yn teimlo bod arnynt angen cefnogaeth, byddant yn gwybod pa fath o gefnogaeth fydd orau iddyn nhw.

Bydd yr erlynydd yn gofyn un ai i'r Swyddog Gofal Tystion a bennir ar gyfer yr achos neu i swyddog yr heddlu yn yr achos i ofyn hyn i'r tyst. Dylid gofyn i'r tyst pa addasiadau y gellir eu gwneud i ganiatáu iddynt roi eu tystiolaeth orau.

Yn yr un modd, dylai erlynwyr ofyn iddynt eu hunain "pa gefnogaeth y gallwn ei chynnig i'r tyst hwn i sicrhau ei fod yn gallu rhoi ei dystiolaeth orau?" Dylai'r gefnogaeth roi ystyriaeth i unrhyw farn a fynegir gan y tyst.

Mewn rhai achosion, gall rhieni, aelodau o'r teulu, ffrindiau neu ofalwyr fod mewn sefyllfa dda i gynnig barn am y math o gefnogaeth a allai gynorthwyo'r tyst. Ond weithiau gall fod fod yn amhriodol gofyn am eu barn. Er enghraifft ble bydd amheuaeth bod y rhieni, aelodau o'r teulu, ffrindiau neu ofalwyr yn rhan o'r trosedd honedig.

Cofnodion meddygol

Mae gwybodaeth am iechyd yr unigolyn a thriniaethau ar gyfer afiechyd yn gyfrinachol ac yn gallu bod yn sensitif.

Os bydd yr heddlu, neu erlynydd, yn gofyn am gael gweld cofnodion meddygol unigolyn, rhaid gofyn i'r unigolyn hwnnw yn gyntaf a yw'n cytuno i'r cofnodion hynny gael eu dangos a dylid dweud wrtho ef neu hi beth yw'r rheswm dros y cais a'r hyn a allai ddigwydd os dangosir y cofnodion.

Bydd yn rhaid i'r erlynydd ystyried cofnodion meddygol yn yr un ffordd ag unrhyw dystiolaeth arall a phenderfynu a ydynt yn berthnasol i'r achos o gwbl. Os ydynt, efallai y bydd yr erlynydd eisiau eu defnyddio i gefnogi'r achos.

Os bydd yr erlynydd yn penderfynu nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi achos yr erlyniad, neu nad yw'n "berthnasol", bydd raid iddo ef neu hi benderfynu a oes raid rhoi'r deunydd i'r diffynnydd a'i dîm cyfreithiol ef neu hi. Yr enw ar y drefn hon yw dadlennu. Mae yna reolau caeth am y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch dadlennu. Ni fydd tystiolaeth yn cael ei dadlennu oni bai ei bod hi'n gyfreithlon gwneud hynny a bod y rheolau yn caniatáu hynny.

Os bydd diffynnydd yn gofyn am gael gweld hanes meddygol unigolyn, bydd angen i'r barnwr yn yr achos benderfynu a yw hyn yn angenrheidiol mewn gwirionedd er mwyn gwneud y treial yn deg. Cyn gwneud y penderfyniad hwnnw, bydd yr unigolyn dan sylw yn cael gwybod eu bod y gofyn am y cofnodion meddygol, a bydd yn cael cyfle i ddweud beth ddylai ddigwydd i'r cofnodion hynny yn ei farn ef neu hi.

Cwestiynau Cyffredin

C. Beth fydd yn digwydd os bydd erlynydd eisiau manylion am fy hanes meddygol, neu unrhyw gofnodion am gynghori neu therapi?

A. Byddwch yn cael gwybod pam y mae'r erlynydd eisiau gweld eich cofnodion a beth allai ddigwydd iddynt. Fe fyddan nhw'n gofyn i chi a ydych yn cytuno i'r erlynydd weld eich cofnodion.

C. Os bydd diffynnydd yn gofyn am gael gweld fy nghofnodion meddygol, a gaf fi wrthwynebu?

A. Fe fyddan nhw'n gofyn i chi a ydych yn cytuno i'r diffynnydd weld eich cofnod. Os na fyddwch yn cytuno, fe gewch gyfle i egluro pam wrth y llys. Y llys fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

C. A oes rhagor o wybodaeth ar gael am y ffordd y bydd y CPS yn delio gyda fy nghofnodion meddygol?

A. Byddwn yn rhoi Canllawiau Cyfreithiol i erlynwyr i'w helpu wrth wneud penderfyniadau mewn achosion sy'n ymwneud â phobl ag anabledd dysgu. Bydd hyn yn cynnwys canllaw ar sut i ddelio â manylion meddygol personol unigolyn.

Trosedd Casineb tuag at bobl anabl

Mae'r adran hon yn egluro'r hyn a olygir gan drosedd casineb tuag at bobl anabl

Mae un rhan o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 – adran 146 – sy'n dweud y gellir galw rhai troseddau yn droseddau casineb tuag at bobl anabl. Trosedd casineb tuag at bobl anabl yw unrhyw fath o drosedd sy'n waeth os yw rhywun yn cael ei dargedu oherwydd anabledd. Mae'r Ddeddf yn disgrifio'r ymddygiad hwn yn 'elyniaeth'.

Gall unrhyw fath o drosedd fod yn drosedd casineb tuag at bobl anabl ond rhaid i ni fodloni'r llys ynghylch dau beth. Yn gyntaf, fod rhywun wedi cyflawni **trosedd** (byrgleriaeth, er enghraifft). Yn ail, fod y trosedd yn **drosedd casineb tuag at bobl anabl**.

Os bydd rhywun yn pledio'n euog i drosedd casineb tuag at bobl anabl, neu'n cael ei ddyfarnu'n euog o hynny, yna bydd raid i'r barnwr neu'r ynadon drin hyn fel rhywbeth sy'n gwneud y trosedd yn fwy difrifol wrth benderfynu ar ddedfryd.

Yn y Ddeddf hon mae 'anabledd' yn golygu "*unrhyw amhariad corfforol neu feddyliol*". Dyma'r iaith sy'n cael ei defnyddio yn y Ddeddf. Mae'n cynnwys pobl ag anableddau dysgu.

Os bydd yr erlynydd yn credu bod tystiolaeth o elyniaeth, yna rhaid i ni dynnu sylw'r barnwr neu'r ynadon at hyn a byddant yn penderfynu pa gosb y dylid ei rhoi i'r sawl sy'n gyfrifol.

Rhai enghreifftiau o droseddau casineb tuag at bobl anabl**:**

Enghraifft 1 – mae person ag anabledd dysgu yn cael ei daro gan rywun sy'n gwneud sylwadau sarhaus a gelyniaethus tuag at bobl sydd ag anableddau dysgu, yn union cyn taro'r person hwnnw.

Enghraifft 2 – mae rhywun yn ymosod yn y stryd ar rieni bachgen yn ei arddegau sydd ag anabledd dysgu. Roedd y person hwn wedi gwneud sylwadau sarhaus a gelyniaethus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol ynghylch y cwpl a'u mab, gan roi sylwadau yn benodol am anabledd dysgu y mab. Roedd y person yn honni fod presenoldeb eu mab yn gostwng prisiau tai yn yr ardal.

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am drosedd casineb tuag at bobl anabl

Mae adran 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn gymwys ar gyfer troseddau a gyflawnir dan unrhyw rai o'r amgylchiadau canlynol:

a) Adeg cyflawni'r trosedd neu'n union cyn gwneud neu ar ôl gwneud hynny, bod y troseddwr yn arddangos gelyniaeth tuag at y sawl a ddioddefodd y trosedd a hynny ar sail anabledd neu anabledd tybiedig yn perthyn i'r dioddefwr.

Er enghraifft, troseddwr yn ymosod ar berson ag anabledd dysgu ac, yn union cyn taro'r dioddefwr, yn gwneud sylw difrïol a sarhaus am bobl ag anableddau dysgu.

NEU

b) Bod y trosedd wedi'i gymell (yn llwyr neu'n rhannol) gan elyniaeth tuag at bersonau sy'n anabl neu ag anabledd neilltuol.

Er enghraifft, mae bws mini sy'n cael ei ddefnyddio gan bobl ag anableddau dysgu yn cael ei ddifrodi a graffiti yn cael ei chwistrellu arno. Y cyngor lleol sydd piau'r bws mini. Mae'r graffiti yn ei gwneud hi'n glir nad yw'r troseddwyr yn cymeradwyo'r ffaith fod y bws yn cael ei ddefnyddio gan bobl ag anableddau dysgu.

Mae'n bwysig nodi mai dau ddewis ar wahân yw **a** a **b** uchod. Felly, os gallwn brofi bod gelyniaeth wedi digwydd adeg cyflawni'r trosedd, nid oes raid i ni brofi bod y trosedd wedi'i ysgogi neu ei achosi gan elyniaeth.

Mae rhai troseddau yn cael eu cyflawni yn erbyn pobl ag anableddau dysgu am resymau heblaw gelyniaeth tuag at eu hanabledd. Gallai fod oherwydd bod y sawl sy'n cyflawni'r trosedd yn ystyried y sawl sydd ag anableddau dysgu yn rhywun sy'n agored i niwed neu'n haws cymryd mantais arno.

Er enghraifft, mae rhywun yn mynd i siop, yn amlwg yn ofidus a dryslyd. Mae gofid y person yn amlwg i bobl eraill yn y siop. Mae'r prynu papur newyddion am £1 a rhoi papur £10 gan ddweud 'Sori, dim ond papur £5 sydd gen i'. Mae'r siopwr yn

gweld y papur £10, yn rhoi newid ar gyfer papur £5 a phocedu'r £5 o wahaniaeth. Mae'r siopwr wedi dwyn oddi wrth rywun ac wedi manteisio ar y ffaith eu bod yn agored i niwed.

Mewn achosion fel hyn, rhaid i'r barnwr neu'r ynad roi ystyriaeth i lefel 'euogrwydd' neu fai y troseddwr a'r niwed a achoswyd neu y risgiwyd ei achosi i'r dioddefwr. Ystyrir lefel yr euogrwydd yn uwch lle bo'r troseddwr yn mynd ati'n fwriadol i dargedu dioddefwr agored i niwed.

Hefyd, lle bo dioddefwr yn arbennig o agored i niwed, gall hyn fod yn arwydd o raddau niwed mwy difrifol na'r hyn sy'n arferol.

Yn esiampl y siopwr uchod, nid yw adran 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn berthnasol, oherwydd, yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael, ni allwn ddangos bod y trosedd yn cyd-fynd ag arddangos gelyniaeth neu wedi'i ysgogi gan elyniaeth tuag at anabledd person arall. Ond bydd y llys sy'n dedfrydu yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith fod y dioddefwr yn agored i niwed.

Cwestiynau Cyffredin

C. Ble gallaf gael gwybod mwy am drosedd casineb tuag at bobl anabl?

A. Fe gewch ragor o fanylion yn ein datganiad polisi cyhoeddus Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Drosedd Casineb tuag at Bobl Anabl yn yr adran Cyhoeddiadau ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk. Gallwch ofyn am gopïau gan ein Cangen Cyfathrebu, ffôn 020 335 70913 neu e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

C. A oes gwybodaeth hawdd ei darllen am drosedd casineb tuag at bobl anabl?

A. Oes. Mae fersiwn hawdd ei ddarllen o'n datganiad polisi cyhoeddus ar drosedd casineb tuag at bobl anabl ar gael yn yr adran Cyhoeddiadau ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk. Gallwch ofyn am gopïau wedi'u hargraffu gan ein Cangen Cyfathrebu, ffôn 020 335 70913 neu e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Hawliau dioddefwyr a thystion i gael gwasanaeth da a theg

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y cyfrifoldebau sydd gan y CPS tuag at ddioddefwyr a thystion

Yn Atodiad C o'r enw 'Cynnydd achos troseddol' rydym yn dangos sut mae hyn yn rhan o'r broses cyfiawnder troseddol.

Addewid yr Erlynwyr

Dyma ddogfen sy'n egluro'r hyn y bydd y CPS yn ei wneud ar gyfer pob **dioddefwr**. Mae deg addewid y dylai erlynwyr eu cofio wrth i achos fynd yn ei flaen.

Rhywbeth arbennig o bwysig i bobl ag anableddau dysgu yw'r addewid y dylai erlynwyr 'warchod dioddefwyr rhag ymosodiadau di-alw-amdanynt neu amherthnasol ar eu cymeriad, a gellid gofyn i'r llys ymyrryd pan fydd y croesholi'n cael ei ystyried yn amhriodol neu ormesol'.

O'i roi yn syml, mae hyn yn golygu y dylai'r erlynydd weithredu'n gyflym fel bod y llys yn gallu sicrhau na ofynnir cwestiynau i'r dioddefwr:

- na chaniateir eu gofyn, er enghraifft am anabledd dysgu'r tyst os nad yw hyn yn berthnasol i'r achos;
- neu na fyddai ef neu hi o bosib yn eu deall, er enghraifft os cafodd y llys wybod am anghenion cyfathrebu tyst;
- neu sy'n rhy ymosodol o ran natur neu'n bwlio, er enghraifft os bydd anabledd dysgu tyst yn cael ei ddefnyddio i ddrysu'r tyst neu ei ddefnyddio'n un swydd i beri niwed.

Y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

Mae'r hyn a elwir yn 'Gôd ar gyfer Dioddefwyr' yn disgrifio'r safon gwasanaeth sylfaenol y gall **dioddefwyr** troseddau ei disgwyl gan y CPS, yr heddlu, Unedau Gofal Tystion a llysoedd, ymysg eraill.

Pwrpas pwysicaf y Côd ar gyfer Dioddefwyr yw sicrhau bod dioddefwyr troseddau yn derbyn gwybodaeth brydlon a chywir am eu hachos. Er enghraifft, bydd dioddefwyr yn cael

gwybodaeth am ddyddiadau gwrandawiadau llys, canlyniad gwrandawiadau cyn treial, y dyfarniad a'r ddedfryd.

Mae'r Côd ar gyfer Dioddefwyr yn berthnasol i ddioddefwyr yn unig – nid yw'n disgrifio'r ymrwymiadau o ran tystion.

Mae'r Côd ar gyfer Dioddefwyr yn ddogfen gan y llywodraeth, a rhaid i nifer o asiantaethau (gan gynnwys y CPS) ei dilyn.

Y Siarter Tystion

Mae hon yn disgrifio'r safonau gwasanaeth y gall pob **tyst** eu disgwyl os ydynt yn dyst i drosedd neu ddigwyddiad. Mae'n disgrifio'r help a'r gefnogaeth y gall pob tyst ddisgwyl eu derbyn ar bob cam yn y broses cyfiawnder troseddol gan yr holl asiantaethau a chyfreithyddion sy'n cymryd rhan. Ond nid yw'n cwmpasu rôl barnwyr ac ynadon.

Dyma enghreifftiau o'r addewidion a wneir yn y Siarter Tystion:

- os ydych yn agored i niwed neu'n cael eich dychryn, byddwn yn gofyn a fyddech chi'n hoffi cefnogaeth arbennig;
- os bydd raid i chi fynd i'r llys byddwch yn cael manylion ymarferol am y llys ble byddwch yn rhoi tystiolaeth (er enghraifft, amseroedd agor y llys, ble mae'r llys, gwybodaeth am barcio);
- byddwch yn cael cynnig ymweld â'r llys cyn y treial.

Os yw tyst yn ddioddefwr hefyd, bydd ganddo hawliau ychwanegol a ddisgrifir yn y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr. Mae'r Siarter yn ddogfen gan y llywodraeth, a rhaid i nifer o asiantaethau ei dilyn.

Datganiadau Personol Dioddefwr

Gofynnir i **ddioddefwyr** troseddau a thystion i droseddau wneud datganiad tyst i'r heddlu. Gall y datganiad hwn fod yn ysgrifenedig, neu gall fod yn recordiad fideo. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn yr achos.

Os ydynt yn dymuno, gall **dioddefwyr** troseddau wneud datganiad **ychwanegol**. Gelwir hyn yn Ddatganiad Personol Dioddefwr. Mae ganddo bwrpas gwahanol i'r datganiad tyst a ddisgrifir uchod.

Pwrpas Datganiad Personol Dioddefwr yw rhoi cyfle i'r dioddefwr (neu deulu'r dioddefwr mewn rhai achosion) egluro'r effaith a gafodd y trosedd arnyn nhw yn gorfforol, emosiynol neu ariannol.

Gall Datganiad Personol Dioddefwr roi gwybodaeth ychwanegol hefyd, er enghraifft:

- a yw'r trosedd wedi cael effaith ar ffordd o fyw annibynnol y dioddefwr;

- a yw'r dioddefwr yn teimlo'n agored i niwed neu wedi'i ddychryn;

- a yw'r dioddefwr yn poeni y bydd y diffynnydd yn cael mechnïaeth;

- gwybodaeth am unrhyw iawndal y gallai'r dioddefwr fod eisiau ei hawlio.

Bydd Datganiad Personol Dioddefwr yn cael ei ddarllen gan yr erlynydd. Ond bydd yn cael ei weld gan bobl eraill hefyd, gan gynnwys y diffynnydd a'i gyfreithiwr yn ogystal â'r barnwr neu ynadon.

Mater i'r dioddefwr yw penderfynu a hoffai wneud Datganiad Personol Dioddefwr. Nid oes raid i'r dioddefwr wneud Datganiad Personol Dioddefwr os nad yw ef neu hi'n dymuno gwneud hynny. Bydd yr heddlu yn gofyn i'r dioddefwr a fyddai ef neu hi yn hoffi gwneud y datganiad ychwanegol hwn.

Fe gewch ragor o fanylion am Ddatganiadau Personol Dioddefwr yn yr adran Adnoddau Cyfreithiol, dan Ganllawiau Cyfreithiol, ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk

Cwestiynau Cyffredin

C. Rwy'n ddioddefwr ac nid wyf yn credu bod yr erlynydd wedi dilyn Addewid yr Erlynwyr neu'r Côd ar gyfer Dioddefwyr. Beth alla'i ei wneud?

A. Fe ddylech ysgrifennu at swyddfa'r CPS a fu'n delio â'r achos. Dylech amlinellu pam eich bod yn meddwl na wnaeth yr erlynydd ddilyn Addewid yr Erlynwyr neu'r Côd ar gyfer Dioddefwyr. Byddwn yn delio ag unrhyw gwynion dan eich trefn gwynion. Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r Côd ar gyfer Dioddefwyr, a'ch bod yn parhau'n anfodlon, gallwch ofyn i'ch Aelod Seneddol gyfeirio'r achos at yr Ombwdsmon Seneddol.

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am fy hawliau fel dioddefwr neu dyst?

- Gwefan y CPS – www.cps.gov.uk
- Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron – 'y Côd'
- Cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr
- Addewid yr Erlynwyr
- Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau - Côd ar gyfer Dioddefwyr
- Siarter Tystion

Fe gewch ragor o fanylion ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk Gallwch ofyn am gopïau o'r Côd ac Addewid yr Erlynwyr, yn ogystal â gwybodaeth am ffurfiau eraill a chyfieithiadau sydd ar gael, trwy gysylltu â Changen Cyfathrebu y CPS, ffôn 020 335 70913 neu e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i helpu dioddefwyr a thystion roi eu tystiolaeth orau

Rydym yn egluro hefyd pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y gofynnir am y gefnogaeth a'i bod yn cael ei darparu – rhestrir yn Atodiad D
Unedau Gofal Tystion

Ym mhob Rhanbarth y CPS y mae o leiaf un Uned Gofal Tystion. Maen nhw'n cael eu rhedeg a'u staffio ar y cyd gan y CPS a'r heddlu. Bydd Swyddogion Gofal Tystion yn gweithio yn yr Unedau Gofal Tystion.

Nid cyfreithyddion na swyddogion yr heddlu yw Swyddogion Gofal Tystion. Eu gwaith yw darparu un man cyswllt ar gyfer tystion. Maent yn sicrhau hefyd bod tystion yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i ganiatáu iddynt roi eu tystiolaeth orau.

Bydd Swyddogion Gofal Tystion yn rhoi gwybodaeth i dystion am gynnydd achosion llys. Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth am dystion i'r llys ac i'r erlynydd.

Enghraifft o'r math o wybodaeth a ddarperir i'r llys yw'r dyddiadau pan fydd tyst ar wyliau. Bydd y wybodaeth yn helpu'r llys i restru achos ar gyfer treial ar ddyddiad pan fydd y tyst ar gael.

Enghraifft o'r math o wybodaeth a ddarperir i'r erlynydd yw a oes angen cyfieithydd ar y tyst, neu a fyddai'r tyst yn hoffi i'r erlynydd wneud cais i'r llys am 'fesurau arbennig'.

Mesurau arbennig

I rai pobl, mae'r broses o roi tystiolaeth yn y llys yn gallu bod yn anodd dros ben. Mewn rhai achosion gellir helpu tystion sy'n agored i niwed neu'n cael eu dychryn i roi eu tystiolaeth yn y ffordd orau bosib. Mewn achosion troseddol, gelwir hyn yn 'fesurau arbennig'.

'Mesurau arbennig' yw'r term am wahanol ffyrdd o roi tystiolaeth. Gall mesurau arbennig olygu bod y profiad o roi tystiolaeth yn llai dirdynnol i dystion.

Rhaid i swyddog yr heddlu a'r erlynydd benderfynu a ddylid gwneud cais i'r llys am unrhyw rai o'r mesurau arbennig a restrir isod. Ond rhaid rhoi ystyriaeth i farn y tyst hefyd. Dylai swyddog yr heddlu egluro mesurau arbennig wrth y tyst a gwneud nodyn o'i farn ef neu hi. Bydd hyn o gymorth gyda'r drafodaeth rhwng yr erlynydd a swyddog yr heddlu.

Nid pawb sy'n gallu manteisio ar fesurau arbennig. Y mae rhai rheolau penodol i'w bodloni cyn y gellir gwneud cais i'r llys. Mater i'r barnwr neu ynadon yw penderfynu a ddylid caniatáu i dyst gael mesur arbennig.

Mae mesurau arbennig yn cynnwys:

- recordio tystiolaeth ar fideo – bydd tystiolaeth y tyst yn cael ei recordio ar fideo rai wythnosau neu fisoedd cyn y treial a'i chwarae i'r llys yn y treial;

- defnyddio sgriniau o amgylch bocs y tyst er mwyn atal y tyst rhag gorfod gweld y diffynnydd;

- rhoi tystiolaeth gan ddefnyddio cyswllt teledu – gall y tyst eistedd mewn ystafell draw oddi wrth y llys a rhoi eu tystiolaeth trwy gyswllt teledu byw i'r llys. Bydd y tyst yn gallu gweld y llys a bydd y bobl sydd yn y llys (gan gynnwys y diffynnydd) yn gallu gweld y tyst ar sgrîn deledu;

- rhoi tystiolaeth yn breifat – bydd hyn yn digwydd pan na fydd aelodau'r cyhoedd yn cael bod yn y llys; a

- chael eu cynorthwyo gan ganolwr i roi tystiolaeth yn y llys. Canolwr yw rhywun sy'n gallu cynorthwyo tyst i ddeall y cwestiynau a ofynnir iddynt, a sicrhau bod y llys yn deall ei atebion ef neu hi. Mae rhagor o wybodaeth am ganolwyr yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Dylai'r heddlu a'r erlynydd ystyried a fyddai tyst yn elwa o gael mesurau arbennig mor fuan â phosib.

Dylai swyddog yr heddlu ofyn i'r tyst a fyddai'n hoffi cwrdd â'r erlynydd i drafod mesurau arbennig. Mae rhagor o wybodaeth am y cyfarfod hwn ('Cyfarfodydd mesurau arbennig tystion') yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Os gwneir cais am fesurau arbennig, mater i'r **barnwr neu ynad** yw penderfynu a fydd y mesur arbennig y gwneir cais amdano yn cael ei ganiatáu. Rhaid iddynt benderfynu a yw'r rheolau ar gyfer mesurau arbennig wedi'u bodloni. Dyma mae'r gyfraith yn ei ddweud.

Bydd y Swyddog Gofal Tystion yn dweud wrth y tyst a yw'r llys wedi caniatáu mesurau arbennig.

Hyd yn oed os na chaniateir mesurau arbennig, neu os na fydd tystion ag anabledd dysgu eisiau neu angen mesurau arbennig, efallai y bydd arnynt eisiau rhyw gefnogaeth arall a fydd yn golygu bod mynd i'r llys yn llai dirdynnol, fel gwybod y gall ffrind neu gefnogwr fynd i'r llys gyda nhw, ac y gallant eistedd yn ystafell y llys pan fyddant yn rhoi tystiolaeth. Gall swyddog yr heddlu roi gwybod i'r erlynydd beth allai helpu. Yna gall yr erlynydd ofyn i'r llys ganiatáu hynny.

Canolwyr

Canolwr yw rhywun sy'n gallu helpu dioddefwr neu dyst i gael dweud eu dweud. Gall canolwr helpu rhywun i:

- ddeall cwestiynau sy'n cael eu gofyn; a
- sicrhau bod yr atebion a roddir gan y person hwnnw'n cael eu deall.

Gall canolwr helpu tyst i ddeall ac ateb cwestiynau a ofynnir gan yr heddlu neu gan gyfreithyddion yn y llys. Felly, gallai canolwr

gynorthwyo tyst pan fydd ef neu hi yn rhoi datganiad i'r heddlu. A gallai canolwr helpu tyst i roi tystiolaeth yn y llys hefyd.

Gellir defnyddio canolwr os bydd tyst yn ei chael hi'n anodd deall cwestiynau gan yr heddlu neu gyfreithyddion, **neu** os bydd yr heddlu neu gyfreithyddion yn ei chael hi'n anodd deall atebion tyst.

Nid yw canolwr yr un peth ag 'oedolyn priodol'.

Ni fydd canolwr yn meddwl am atebion ar gyfer tyst – rhaid i'r atebion fod yn atebion gan y tyst.
Canolwr yw un o'r 'mesurau arbennig' a ddisgrifir uchod. Bydd yr heddlu yn gwneud trefniadau ar gyfer canolwr. Y barnwr neu'r ynad fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ellir defnyddio canolwr i helpu tyst i roi tystiolaeth yn y llys.

Gallwch gael rhagor o fanylion am ganolwyr yn yr adran Adnoddau Cyfreithiol, dan Ganllawiau Cyfreithiol, ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk

Cyfarfodydd mesurau arbennig tystion

Cyfarfodydd rhwng y tyst a'r erlynydd yw'r rhain i drafod mesurau arbennig. Nid ydynt yn digwydd ym mhob achos sy'n ymwneud â thystion sy'n agored i niwed neu'n cael eu dychryn. Ond os bydd tyst sy'n agored i niwed neu'n cael ei ddychryn yn gofyn am gyfarfod gyda'r erlynydd i drafod mesurau arbennig, fe ddylai hynny ddigwydd.

Y rheswm dros y cyfarfod gyda'r erlynydd yw er mwyn siarad am y mesurau arbennig y gellir gwneud cais amdanynt neu ba fesurau y gwneir cais amdanynt. Bydd yr erlynydd hefyd yn gallu dweud wrth y tyst am drefn y llys.

Ni fydd yr erlynydd yn gallu siarad am y dystiolaeth yn y cyfarfod hwn.

Gall y tyst ddod i'r cyfarfod gyda pherthynas, gofalwr neu gefnogwr. Os bydd angen cyfieithydd neu ganolwr, bydd angen iddynt hwythau fynychu.
Gellir cynnal y cyfarfod yn swyddfa'r CPS, gorsaf yr heddlu neu'r llys ble bydd yr achos yn cael ei wrando. Os oes gan dyst ofynion penodol o ran mynediad neu ofynion eraill, yna dylai'r erlynydd ystyried cynnal y cyfarfod yn rhywle arall, er enghraifft yn safle'r gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd y trefniadau ar gyfer cyfarfod mesurau arbennig tyst yn cael eu gwneud gan yr heddlu, yr Uned Gofal Tystion a'r erlynydd. Ni fydd raid i'r tyst wneud unrhyw rai o'r trefniadau.

Fe gewch ragor o fanylion am gyfarfodydd mesurau arbennig tystion yn yr adran Cyhoeddiadau ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk. Gallwch ofyn am gopïau wedi'u hargraffu gan Gangen Cyfathrebu y CPS, ffôn 020 335 70913 neu e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Cyfweliadau gyda thystion cyn treial

Os yw erlynydd yn pryderu am ddibynadwyedd tystiolaeth gan dyst, fe all ef neu hi wahodd y tyst i fynychu 'cyfweliad gyda thystion cyn treial'.

Gall cyfweliad gyda thystion cyn treial ddigwydd mewn unrhyw achos ble bydd angen i'r erlynydd fod yn siwr ynghylch dibynadwyedd tystiolaeth y tyst. Gall ddigwydd hefyd os oes tystiolaeth gymhleth yr hoffai'r erlynydd i'r tyst ei hegluro'n fanylach.

Gall y tyst ddod â ffrind neu gefnogwr i'r cyfweliad gyda thystion cyn treial. Telir costau teithio a cholli enillion i'r tyst a'i gefnogwr ef neu hi. Nid oes raid i dyst fynychu cyfweliad gyda thyst cyn treial os nad yw ef neu hi'n dymuno gwneud hynny.

Nid yw cyfweliad gyda thyst cyn treial yr un fath â chyfarfod mesurau arbennig tyst. Un o'r prif wahaniaethau rhwng y ddau yw y gall yr erlynydd ofyn cwestiynau i'r tyst ynghylch ei dystiolaeth yn y cyfweliad gyda thyst cyn treial.

Fe gewch ragor o fanylion am gyfweliadau gyda thystion cyn treial yn yr adran Dioddefwyr a Thystion dan adnoddau Dioddefwyr a Thystion ar ein gwefan www.cps.gov.uk

Gwasanaeth Tystion

Cymorth i Ddioddefwyr – sef elusen – sy'n rhedeg y Gwasanaeth Tystion ym mhob llys troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Gwasanaeth Tystion yn helpu:

- tystion y gelwir arnynt i roi tystiolaeth;
- dioddefwyr troseddau a'u teuluoedd a ffrindiau sy'n mynychu'r llys am unrhyw reswm;
- plant ac oedolion.

Mae'r Gwasanaeth Tystion am ddim ac mae'n annibynnol ar yr heddlu, y CPS neu'r llysoedd.

Gall staff a gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Tystion gynnig y canlynol i dystion:

- rhywun i siarad â nhw'n gyfrinachol;
- cyfle i weld y llys ymlaen llaw a dysgu am drefn y llys (enw arall ar hyn yw 'ymweliadau cyn treial');
- lle tawel i ddisgwyl yn y llys;
- help ymarferol (er enghraifft, gyda ffurflenni costau);
- cyfle i drafod yr achos pan ddaw i ben a chael rhagor o gymorth neu wybodaeth.

Mae rhagor o fanylion am y Gwasanaeth Tystion ar gael yn yr adran Gwasanaethau i Dystion ar eu gwefan www.victimsupport.org.uk.

Cwestiynau Cyffredin

C. Nid wyf yn credu bod yr erlynydd wedi dilyn Addewid yr Erlynwyr. Beth alla'i ei wneud?

A. Gallwch wneud cwyn wrth Ranbarth y CPS a fu'n delio â'r achos. Mae ein polisi ar ddelio â chwynion ar gael yn yr adran Cyhoeddiadau dan Polisïau a Chanllawiau Cyfathrebu ar ein gwefan www.cps.gov.uk

C. Os byddaf yn cael fy nghyhuddo o gyflawni trosedd, alla'i ddefnyddio unrhyw rai o'r mesurau hyn i'm helpu?

A. Na. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan yr Unedau Gofal Tystion, Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Tystion ar gyfer dioddefwyr a thystion yn unig. Y mae mesurau arbennig a chanolwyr ar gael yn unig i ddioddefwyr a thystion sy'n cael y broses o roi tystiolaeth yn arbennig o anodd.

C. Does arna'i ddim angen unrhyw fesurau arbennig i'm helpu i roi tystiolaeth, ond byddai o gymorth i mi petai cefnogwr hunaneiriolaeth yn dod gyda mi i'r gwrandawiad llys. Rwy'n ei chael hi'n anodd canolbwyntio ac rwy'n poeni y byddaf yn cynhyrfu a mynd yn ddryslyd wrth gael fy holi am amser hir. A yw'n bosib gwneud rhywbeth i dynnu rhywfaint o'r pwysau oddi arnaf?

A. Mae'n bwysig bod yr erlynydd yn gwybod beth yw eich pryderon a'r hyn a allai helpu. Dywedwch wrth swyddog yr heddlu sy'n delio â'ch achos, a dylai ef neu hi ddweud wrth yr erlynydd.

Er enghraifft, petai cael toriad bob 10 munud yn helpu pan fyddwch yn y llys, neu os yw'n bwysig gwybod bod eich cefnogwr yn eistedd yn ystafell y llys, gall yr erlynydd roi gwybod i'r llys am hyn a gall ofyn i'r llys ganiatáu hyn. Mater i'r llys yw cytuno ai peidio.

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am gefnogaeth i'm helpu i roi tystiolaeth yn y llys?

- Gwefan y CPS – www.cps.gov.uk
- Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron – 'y Côd'
- Cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr
- Addewid yr Erlynwyr
- Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau - Côd ar gyfer Dioddefwyr
- Siarter Tystion

Fe gewch ragor o fanylion ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk Gallwch ofyn am gopïau o'r Côd ac Addewid yr Erlynwyr, yn ogystal â gwybodaeth am ffurfiau eraill a chyfieithiadau sydd ar gael, trwy gysylltu â Changen Cyfathrebu y CPS, ffôn 020 335 70913 neu e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Dedfrydu

Mae'r adran hon yn dweud wrthych beth fydd yn digwydd pan fydd rhywun yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd neu'n pledio'n euog i drosedd

Pan fydd rhywun yn pledio'n euog, neu'n cael ei ddyfarnu'n euog o gyflawni trosedd, bydd raid i'r barnwr neu'r ynadon benderfynu ar gosb y person hwnnw. Gelwir hyn yn 'ddedfrydu'.

Y mae gwahanol fathau o ddedfrydau yn amrywio o garchar i ddirwy neu wneud gwaith di-dâl. Mae'r mathau o ddedfrydau a

dewisiadau sydd ar gael i'r llys yn rhy niferus i'w disgrifio yn y ddogfen hon.

Fe gewch ragor o wybodaeth am y gwahanol fathau o ddedfrydau yn yr adran Dioddefwyr a Thystion, dan 'Mynd i'r Llys', ar ein gwefan www.cps.gov.uk

Byddwn yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r barnwr neu'r ynad er mwyn gwneud gorchmynion ychwanegol ynghyd â'r brif ddedfryd. Er enghraifft, os yw'r dioddefwr yn hawlio iawndal am ddifrod a achoswyd i'w eiddo ef neu hi, byddwn yn dweud wrth y barnwr neu'r ynad faint yw hyn.

Os profir bod y trosedd yn eich erbyn yn drosedd casineb tuag at bobl anabl, fe fydd hyn yn gwneud y trosedd yn fwy difrifol a dylai'r ddedfryd fod yn fwy llym. Byddwn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol gan y barnwr neu'r ynad.

Cyn y dedfrydu, mae hawl gan gyfreithydd y diffynnydd i roi rhywfaint o wybodaeth am y diffynnydd i'r barnwr neu'r ynadon. Gallai hyn fod yn rhywbeth am gefndir y diffynnydd neu'r rheswm iddo ef neu hi gyflawni'r trosedd. Gelwir hyn yn 'lliniaru'.

Os bydd cyfreithydd y diffynnydd yn dweud pethau sy'n anghywir am y dioddefwr, neu'n dweud pethau sy'n adlewyrchu'n wael ar y dioddefwr, byddwn yn herio hyn gyda'r barnwr neu'r ynad. Mae hyn yn rhan o Addewid yr Erlynwyr y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn y ddogfen.

Mae'r adran hon yn dweud wrthych sut gall dedfrydu ymwneud yn uniongyrchol â chi

Os bydd y diffynnydd yn cael ei ddedfrydu mewn llys oedolion (llys ynadon neu Lys y Goron), gallwch fynychu'r llys pan fydd y diffynnydd yn cael ei ddefrydu, os dymunwch. Bydd y swyddog gofal tystion sy'n delio â'ch achos yn gallu dweud wrthych pryd y bydd hyn yn digwydd. Fel arfer bydd Llysoedd Ieuenctid ar gau i'r cyhoedd.

Os cawsoch niwed neu os cafodd eich eiddo ei ddifrodi neu ei ddwyn, gallwch wneud cais am iawndal gan y diffynnydd. Yr heddlu a'r CPS fydd yn delio â hyn. Er mwyn gwneud hyn, gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth o'r niwed a derbynebau neu unrhyw beth sy'n gallu profi gwerth y pethau a ddifrodwyd. Bydd yr erlynydd yn dweud wrth y llys faint sy'n cael ei hawlio a gofyn i'r barnwr neu'r ynadon orchymyn bod iawndal yn cael ei dalu. Mater i'r llys wedyn yw penderfynu faint o iawndal y dylid ei ddyfarnu.

Fe gewch wybod y canlyniad (euog neu ddieuog) a'r ddedfryd gan y swyddog gofal tystion a fu'n delio â'ch achos.

Os cafodd y diffynnydd ei orchymyn i dalu iawndal i chi, bydd y llys yn cysylltu â chi'n uniongyrchol gan ddweud wrthych sut a phryd y telir yr arian. Ni ddylai'r diffynnydd gysylltu â chi'n uniongyrchol i drafod hyn. Y llys sy'n gyfrifol am gasglu'r arian a sicrhau bod y diffynnydd yn talu'r iawndal yn brydlon.

Cwestiynau Cyffredin

C. Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r diffynnydd gael ei ddedfrydu?

A. Gall y diffynnydd apelio yn erbyn ei ddyfarniad euog a/neu ddedfryd. Bydd yr Uned Gofal Tystion yn rhoi gwybod i chi am unrhyw apeliadau gan y diffynnydd.

C. A gaf fi apelio yn erbyn penderfyniad gan y llys?

A. Mewn amrediad cyfyngedig o achosion difrifol, mae'n bosib i ddioddefwr ofyn i'r Twrnai Cyffredinol ystyried apelio yn erbyn penderfyniad a wneir gan y llys. Os bydd y dioddefwr yn meddwl bod y ddedfryd yn rhy drugarog ond bod yr erlyniad yn anghytuno, gall y dioddefwr ofyn i'r Twrnai Cyffredinol ei hystyried, ond rhaid gwneud hyn o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad dedfrydu.

Rhai cwestiynau posib eraill sydd gennych

C. Beth ddylwn i ei wneud os nad wyf am i'r achos fynd i'r llys?

A. Dylech ddweud wrth yr heddlu. Weithiau bydd dioddefwyr yn gofyn i'r heddlu beidio â bwrw ymlaen â'r achos ac yn dweud nad ydynt bellach yn dymuno rhoi tystiolaeth. Gallai fod nifer o resymau dros hyn. Nid yw hyn yn golygu y bydd yr achos yn cael ei atal yn awtomatig. Byddwn yn gofyn i'r heddlu ddarganfod pam nad ydych eisiau i'r achos fynd i'r llys, cyn i ni benderfynu beth i'w wneud. Os byddwch yn tynnu eich cwyn yn ôl, nid yw hyn yn golygu na allwch alw'r heddlu os bydd hyn yn digwydd eto.

C. A fydd y diffynnydd a'r cyhoedd yn fy ngweld wrth i mi roi tystiolaeth?

A. Byddant. Fodd bynnag, mae rhai dioddefwyr a thystion yn gymwys i gael "mesurau arbennig". Mae'r mesurau hyn yn golygu bod dioddefwyr a thystion yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Enghraifft o fesur arbennig yw caniatáu i sgriniau gael eu defnyddio yn y llys i atal dioddefwr neu dyst rhag gweld y diffynnydd. Mesur arbennig arall yw caniatáu i'r oriel gyhoeddus gael ei chlirio mewn achosion o droseddau rhywiol neu achosion sy'n gysylltiedig â dychryn. Y barnwr fydd yn penderfynu a all dioddefwr neu dyst gael mesurau arbennig.

C. A fydd adroddiadau am fy achos yn ymddangos yn y papur newyddion neu ar y teledu?

A. Gall hynny ddigwydd. Mewn rhai achosion, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud cais am orchymyn sy'n atal rhai manylion am dystion rhag ymddangos yn y cyfryngau a all arwain at eu henwi.

C. A fydd rhywun gyda mi pan fyddaf yn rhoi tystiolaeth?

A. Gallwn ofyn, ond penderfyniad i'r llys yw hyn.

C. Beth ddylwn ei wneud os wyf yn cael fy mrawychu neu fy nychryn gan y diffynnydd neu ei ffrindiau neu deulu?

A. Dylech gysylltu â'r heddlu.

Atodiad A: Geirfa - egluro geiriau

Dyma restr o rai o'r geiriau sy'n cael eu defnyddio wrth i ni sôn am droseddau a mynd i'r llys.

Achos – ymchwiliad ac unrhyw waith cyfreithiol sy'n dilyn cwyn am drosedd.

Achosion – achos llys.

Adfocad – rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall yn y llys.

Amddiffyniad – yr esboniad sy'n cael ei roi gan y diffynnydd gan egluro pam nad yw ef neu hi'n euog o gyflawni trosedd.

Apêl – Cais i lys neu awdurdod uwch i adolygu penderfyniad gan lys neu awdurdod is.

Arestio – yr heddlu yn gwneud i rywun fynd i orsaf yr heddlu oherwydd eu bod yn meddwl y gall y person hwnnw fod wedi cyflawni trosedd a'u bod eisiau ei holi ef neu hi.

Bargyfreithiwr – cyfreithydd sy'n siarad yn y llys.

Barnwr – y person sydd yng ngofal treial yn Llys y Goron ac sy'n sicrhau bod y treial yn deg ac y cedwir at y gyfraith. Y barnwr sy'n dedfrydu pobl a gafodd eu dyfarnu'n euog neu a gyfaddefodd eu bod yn euog.

Barnwr Rhanbarth – Person â chymwysterau cyfreithiol sy'n eistedd yn lle ynadon, neu gydag ynadon. Arferid eu galw'n ynadon cyflog.

Blwch tystio – y man lle bydd person yn sefyll yn ystafell y llys wrth roi tystiolaeth.

Cais – gofyn am rywbeth.

Canolwr – person cymwys i helpu tystion ag anawsterau cyfathrebu i roi tystiolaeth yn y llys.

Clerc y llys – rhywun sy'n helpu'r barnwr a sicrhau bod achosion yn mynd yn ddidrafferth.

Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron (y Côd) – dogfen sy'n disgrifio sut bydd y CPS yn gwneud penderfyniadau am achosion.

CPS – Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Croesholi – dyma pryd y bydd y cyfreithydd ar ran yr ochr arall yn gofyn cwestiynau i rywun yn y llys. Bydd tystion yr erlyniad yn cael eu croesholi gan gyfreithydd yr amddiffyniad. Bydd croesholi yn digwydd ar ôl i rywun roi ei 'dystiolaeth flaenaf'.

Cyfaddef – dweud eich bod wedi gwneud rhywbeth.

Cyfraith trosedd – ystyr cyfraith trosedd yw'r rheolau sy'n helpu i'n cadw ni'n saff a diogel. Mae hyn yn cynnwys rheolau rhag ein niweidio ni, ein meddwl neu ein heiddo a rhag difrodi neu ddwyn ein meddiannau.

Cyfreithiwr – cyfreithydd sydd wedi'i hyfforddi i roi cyngor a pharatoi achosion ac sy'n amddiffyn (neu gynrychioli) pobl yn y llys ynadon.

Cyfreithyddion – pobl â chymwysterau cyfreithiol sy'n siarad yn y llys.

Cyhuddedig – rhywun sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd.

Cyhuddiad/cyhuddedig – dyma rydym yn galw'r trosedd pan fydd rhywun yn y llys.

Cymorth i Ddioddefwyr – elusen genedlaethol sy'n cefnogi dioddefwyr troseddau ac sy'n rhedeg Gwasanaeth Tystion y llys.

Cyswllt byw – cyswllt teledu cylch cyfyng neu fideo sy'n gadael i dystion roi tystiolaeth o rywle draw oddi wrth ystafell y llys. Gall y bobl yn ystafell y llys weld a chlywed y tyst a gall y tyst hefyd weld a chlywed beth sy'n digwydd yn y llys.

Dalfa – carchar.

Datganiad – dweud beth ddigwyddodd mewn perthynas â throsedd. Fel arfer bydd yn cael ei ysgrifennu ac yna ei lofnodi gan y sawl sy'n dweud beth ddigwyddodd. Weithiau gall y datganiad gael ei recordio ar fideo.

Dedfryd – y gosb y bydd barnwr neu ynad yn penderfynu y dylai diffynnydd ei chael ar ôl cael ei ddyfarnu'n euog.

Dieuog ***(Innocent)*** – pan fydd y rheithgor neu ynadon wedi penderfynu bod rhywun heb gyflawni trosedd. Mae'n groes i euog.

Dieuog ***(Not guilty)*** – bydd diffynnydd yn pledio'n ddieuog os bydd ef neu hi'n gwadu'r cyhuddiad. Bydd diffynnydd yn cael ei ddyfarnu'n ddieuog os bydd yr ynadon neu'r rheithgor yn penderfynu nad yw'r erlyniad wedi profi ei achos.

Diffynnydd – y person a gyhuddir o gyflawni trosedd ac sy'n ymddangos gerbron y llys. Os cafodd rhywun ei gyhuddo o gyflawni trosedd, bydd yn ei amddiffyn ei hun trwy ddweud na wnaeth ef neu hi gyflawni'r trosedd.

Dioddefwr – person y mae ymddygiad troseddol wedi digwydd yn uniongyrchol iddo ef neu hi, neu, os bydd person wedi marw neu ei wneud yn anabl o ganlyniad i ymddygiad troseddol, gynrychiolydd o deulu'r dioddefwr.

Doc – y lle yn y llys ble bydd y diffynnydd yn eistedd neu'n sefyll pan fydd yr achos yn cael ei wrando.

Dychryn – byddech yn dychryn petai rhywun yn gwneud i chi deimlo'n ofnus.

Dyfarniad euog – pan fydd barnwr neu ynad wedi penderfynu bod rhywun wedi cyflawni trosedd.

Erlyniad – pan fydd y CPS yn mynd â rhywun i'r llys.

Erlynydd – erlynydd y goron, bargyfreithiwr neu erlynydd cyswllt sy'n ceisio profi bod y diffynnydd yn euog o gyflawni trosedd.

Erlynydd Cyswllt – person a gafodd ei hyfforddi i gyflwyno achos yr erlyniad yn y llys ynadon.

Erlynwyr y Goron – cyfreithyddion a gyflogir gan y CPS sy'n adolygu, paratoi ac erlyn achosion yn y llys.

Euog – pan fydd y rheithgor neu ynadon wedi penderfynu bod rhywun wedi cyflawni trosedd, neu pan fydd y person wedi cyfaddef hynny.

Gŵn – Y clogyn du y bydd cyfreithydd yn ei wisgo yn Llys y Goron. Fel arfer byddant yn gwisgo wig wen o flew ceffyl hefyd.

Gohirio – oedi mewn achos llys tan ddyddiad arall.

Gwasanaeth Tystion – gwasanaeth cenedlaethol sy'n cael ei ddarparu gan yr elusen Cymorth i Ddioddefwyr. Mae staff y Gwasanaeth Tystion i'w cael ym mhob canolfan Llys y Goron a llys ynadon yng Nghymru a Lloegr.

Gweinyddu llw – gwneud addewid yn y llys.

Gwrandawiad – pan fydd achos troseddol yn cael ei drafod yn y llys. Gellir cael llawer o wrandawiadau cyn y daw achos i ben.

Honni – dweud bod rhywbeth wedi digwydd.

Iawndal - swm o arian i wneud iawn am golled, torri, caledi, anghyfleustra neu niwed personol a achosir gan rywun arall.

Llw – addewid.

Llys ieuenctid – llys troseddol ble gwrandewir ar achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc a gyhuddir o gyflawni trosedd.

Llys y Goron – y llys ble bydd achosion troseddol difrifol yn cael eu gwrando. Mae'n gwrando ar achosion mwy difrifol na'r llysoedd ynadon. Weithiau, bydd y llysoedd ynadon yn gofyn i Lys y Goron gymryd achos drosodd.

Llys ynadon - bydd llysoedd ynadon yn delio â thri math o achos:

- **Ynadol** – mae'r rhain yn droseddau llai difrifol, fel gyrru diofal. Mae'r rhain yn droseddau ble nad oes hawl i dreial gerbron rheithgor a bydd yr achos yn cael ei wrando gan ynadon;

- **Neillffordd** – mae'r rhain yn achosion y gellir eu gwrando yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron. Gall y diffynnydd ofyn i'r achos gael ei wrando yn Llys y Goron neu gall yr ynadon benderfynu bod yr achos yn rhy ddifrifol iddyn nhw ddelio ag ef;

- **Ditiol yn unig** – mae'r rhain yn cynnwys achosion difrifol fel llofruddiaeth a lladrata. Dim ond yn Llys y Goron y gellir gwrando ar achosion fel hyn. Bydd yr ynadon yn anfon yr achosion ymlaen yn fuan i'w gwrando yn Llys y Goron, gan ddelio â phethau fel mechnïaeth y diffynnydd yn unig.

Mechnïaeth – y person a gyhuddir o gyflawni trosedd yn peidio â bod yn y carchar cyn eu treial. Weithiau mae'n bosib y bydd amodau. Er enghraifft, mae'n bosib na fydd y sawl a gyhuddir yn cael aros allan ar ôl iddi dywyllu. Neu efallai y bydd raid iddynt fynd i orsaf yr heddlu bob dydd neu bob wythnos.

Mesurau arbennig – ffyrdd y gellir helpu tyst i roi tystiolaeth yn y llys, er enghraifft defnyddio sgrîn, neu roi tystiolaeth o ystafell draw oddi wrth ystafell y llys dros gyswllt teledu.

Oedolyn priodol – rhywun sy'n cefnogi a chynghori person ifanc neu oedolyn agored i niwed yn nalfa'r heddlu. Mae'r person hwn yn wahanol i gyfreithiwr ac nid yw'n rhoi cyngor cyfreithiol.

Pledio – dweud a wnaethoch chi gyflawni trosedd ai peidio.

QC – cyfreithydd uwch; ystyr y llythrennau yw 'Queen's Counsel'.

Rheithgor – 12 unigolyn cyffredin sy'n gwrando ar dreialon yn Llys y Goron ac sy'n penderfynu a yw'r person a gyhuddir yn euog ynteu'n ddieuog.

Rhestr troseddau blaenorol – rhestr o droseddau y mae rhywun wedi'u cyflawni yn y gorffennol.

Swyddog Gofal Tystion – swyddog yr heddlu neu aelod o staff y CPS sy'n gweithio yn yr Uned Gofal Tystion ac sy'n rhoi help a gwybodaeth am yr achos i ddioddefwr neu dyst.

Therapi – mae hyn yn cynnwys seicotherapi a chynghori

Trafod – ceisio cytuno ar rywbeth.

Tramgwydd – y gyfraith a dorrwyd. Weithiau fe'i gelwir yn drosedd.

Treial – achos llys ble bydd tystiolaeth yn cael ei gwrando a thystion yn cael eu galw.

Trosedd – torri'r gyfraith. Y mae gwahanol fathau o droseddau, fel dwyn, lladrata ac ymosod.

Troseddwr – rhywun sydd wedi torri'r gyfraith, hefyd weithiau'n cael ei alw'n gyhuddedig, diffynnydd neu'n berson dan amheuaeth.

Twrnai Cyffredinol – prif gynghorydd cyfreithiol y Llywodraeth.

Tyst – person a welodd drosedd yn digwydd.

Tyst agored i niwed – tyst agored i niwed yw rhywun dan 17 mlwydd oed NEU sydd ag anabledd dysgu NEU sydd â gofynion iechyd meddwl NEU sydd ag anabledd difrifol.

Tyst yr amddiffyniad – person sy'n rhoi tystiolaeth yn y llys i gefnogi achos yr amddiffyniad.

Tyst yr erlyniad – person sy'n rhoi tystiolaeth yn y llys i gefnogi achos yr erlyniad.

Tystiolaeth – ffeithiau sy'n cael eu defnyddio i benderfynu a yw rhywun yn euog neu'n ddieuog o gyflawni trosedd. Gall hyn gynnwys datganiadau tystion, ffotograffau, lluniau teledu cylch cyfyng a mapiau.

Tystiolaeth fideo – mae hyn yr un fath â thystiolaeth flaenaf heblaw bod tystiolaeth y tyst yn cael ei recordio ar dâp cyn y treial. Yn y treial bydd y fideo yn cael ei chwarae i'r barnwr a'r rheithgor neu'r ynadon. Nid pawb sy'n cael rhoi eu tystiolaeth fel hyn. Y mae rheolau arbennig i'w bodloni cyn y gellir chwarae tystiolaeth fideo.

Tystiolaeth Flaenaf – dyma ble bydd tyst yn rhoi tystiolaeth mewn treial a dweud wrth y barnwr neu ynadon am yr hyn a wyddant am drosedd. Mae'n digwydd cyn croesholi.

Tywyswr – y bobl yn y llys sy'n gwneud yn siwr bod pawb yn gwybod ble dylen nhw fod.

WCU – Uned Gofal Tystion, sy'n cael ei rhedeg a'i staffio gan y CPS a'r heddlu sy'n gofalu am ddioddefwyr a thystion a'u cefnogi.

Wig – weithiau bydd cyfreithyddion yn gwisgo wig yn Llys y Goron, wedi'i gwneud o flew ceffyl gwyn.

Y sawl sydd dan amheuaeth – y person y mae'r heddlu yn credu sydd wedi cyflawni trosedd.

Ymchwiliad – ceisio darganfod y ffeithiau. Yr heddlu fydd yn gwneud hyn fel arfer.

Ynad – math o farnwr yw ynad. Nid yw ynadon wedi'u hyfforddi'n gyfreithyddion ac nid ydynt yn gweithio'n llawn amser fel ynadon. Byddant yn cael eu hyfforddi i farnu mewn achos cyfreithiol.

Atodiad B: Rhestr gyfeirio

Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr

Canolwyr

Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Drosedd Casineb tuag at Bobl Anabl

Cyfweliadau gyda thystion cyn treial

Addewid yr Erlynwyr

Mesurau Arbennig

Cefnogi dioddefwyr a thystion ag anabledd dysgu

Datganiadau Personol Dioddefwr

Y Siarter Tystion

Cyfarfodydd mesurau arbennig tystion

Fe gewch ragor o fanylion ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk
Fe gewch wybodaeth am ddogfennau wedi'u hargraffu a ffurfiau eraill sydd ar gael trwy gysylltu â Changen Cyfathrebu y CPS, ffôn 020 335 70913 neu e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Atodiad C - Cynnydd Achos Troseddol

Allwedd: Heddlu | CPS | CPS / WCU | WCU

Cyn cyhuddo

Gwneud datganiad i'r heddlu

Penderfyniad cyhuddo

Addewid yr Erlynwyr,
Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron
Côd ar gyfer Dioddefwyr

Egluro ein penderfyniadau

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr

Ar ôl cyhuddo

Egluro penderfyniadau i ollwng neu newid cyhuddiadau

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr

Rhoi gwybod i ddioddefwyr a thystion am gynnydd

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Egluro canlyniadau

Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Mesurau arbennig

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Paratoi i fynd i'r llys

Mesurau arbennig

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Cwrdd â'r erlynydd

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Ymweld â'r llys

Siarter Tystion

Yn y llys

Cwrdd â'r erlynydd

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Herio ymosodiadau difrïol neu ddi-alw-amdanynt

Addewid yr Erlynwyr

Derbyn pledion

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr

Rhoi gwybod i dystion beth sy'n digwydd

Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Euogfarnu/Rhyddfarnu

Rhoi gwybod i'r dioddefwr beth yw'r canlyniad

Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Dedfryd

Mesurau arbennig

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Cwrdd â'r erlynydd

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Ymweld â'r llys

Siarter Tystion

Apeliadau

Rhoi gwybod i dystion am gynnydd a chanlyniad apeliadau

Addewid yr Erlynwyr
Côd ar gyfer Dioddefwyr
Siarter Tystion

Atodiad D: Sefydliadau cefnogi

Yn y rhestr isod mae manylion cyswllt ar gyfer rhai o'r sefydliadau sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu ac sy'n rhoi gwybodaeth am y materion sy'n effeithio ar bobl ag anableddau dysgu.

Ymddiriedolaeth Ann Craft

Centre for Social Work
University of Nottingham
University Park
Nottingham NG7 2RD
Ffôn: 0115 9515400
E-bost: ann-craft-trust@nottingham.ac.uk

Sefydliad Anawsterau Dysgu Prydain

Campion House
Green Street
Kidderminster
Swydd Gaerwrangon
DY10 1JL
Ffôn: 01562 723010
E-bost: enquries@bild.org.uk

Change

Unit 41
Shine
Harehills Road
Leeds LS8 5HS
Ffôn: 0113 3880011
E-bost: info@change-people.co.uk

Dial
St Catherine's
Tickhill Road
Doncaster DN4 8QN
Ffôn: 01302 310123
E-bost: informationenquries@dialuk.org.uk

Cymdeithas Syndrom Down
Ffôn: 0845 2300372
E-bost: info@downs-syndrome.org.uk

Sefydliad ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu
9fed Llawr
Sea Containers House
20 Upper Ground
Llundain SE1 9QB
Ffôn: 020 7803 1101
E-bost: fpld@fpld.org.uk

Mencap
Cymru – 31, Lambourne Crescent,
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd CF14 5GF
Ffôn: 02920 747588
E-bost: information@mencap.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
393 City Road
Llundain EC1V 1NG
Ffôn: 0845 070 4004
E-bost: info@nas.org.uk

Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu
c/o PO Box 2100
Shoreham-by-Sea
West Sussex BN43 5UG
E-bost: info@nationalforum.co.uk

People First
Unit 3, 46 Canterbury Court
Kennington Park Business Centre
1-3 Brixton Road
Llundain SW9 6DE
Ffôn: 020 7820 6655
E-bost: general@peoplefirstltd.com

RADAR
12 City Forum, 250 City Road
Llundain EC1V 8AF
Ffôn: 020 7250 3222
E-bost: radar@radar.org.uk

United Response
113-123 Upper Richmond Road
Llundain SW15 2TL
Ffôn: 020 8246 5200
E-bost: info@unitedresponse.org.uk

Voice UK
Ystafelloedd 100-106 Kelvin House
RTC Business Centre
London Road
Derby DE24 8UP
Ffôn: 01332 291042
E-bost: voice@voiceuk.org.uk

Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.

Ceir copïau pellach o'r ddogfen hon a gwybodaeth am ieithoedd a fformatau amgen o:

CPS Communication Division
Rose Court
2 Southwark Bridge
London SE1 9HS

E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Am wybodaeth ynglŷn â Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac i weld neu lawrlwytho copi electroneg o'r ddogfen hon, os gwelwch yn dda ymwelwch â'n gwefan:

www.cps.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2010